# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Cynhadledd Fideo Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 20 Hydref 2020

Amser: 09.04 - 09.49

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Bethan Garwood, Dirprwy Glerc |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

# 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

**Busnes yr Wythnos Hon**

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau i agenda dydd Mawrth – bydd dau ddatganiad yn awr yn cael eu cyhoeddi fel datganiadau ysgrifenedig, er mwyn gwneud lle i ddadl ar gyfnod atal byr coronafeirws, y mae angen atal y Rheolau Sefydlog ar ei gyfer.

**Canllawiau ar gyfer Cyfarfod Llawn hybrid**

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd canllawiau diwygiedig ar gyfer Cyfarfod Llawn hybrid yn cael eu dosbarthu, yn dilyn ei dyfarniad yr wythnos diwethaf y dylai Aelodau ymatal rhag defnyddio deunydd hyrwyddo fel cefndir yn Zoom.

**Pleidleisio – datganiadau llafar**

Gofynnodd y Llywydd i'r Rheolwyr Busnes atgoffa'r Aelodau mai dim ond fel datrysiad mewn argyfwng y gellir pleidleisio ar lafar pe bai Aelod yn cael problemau annisgwyl gyda'r ap pleidleisio. Dylai Aelodau ymuno o leoliad a dyfais a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio'r ap.

**Newidiadau i grwpiau**

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes ei bod yn ystyried y cais gan dri Aelod i ffurfio Grŵp Cynghrair Annibynnol ar gyfer Diwygio. Nid yw grŵp Plaid Brexit yn bodoli mwyach.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau canlynol:

**Dydd Mawrth 3 Tachwedd**

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020 (30 munud)
- Dadl: Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Reoliadau Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Addasiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2020 (15 munud)

**Dydd Mawrth 10 Tachwedd**

- ~~Datganiad gan y Prif Weinidog: Cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol (45 munud)~~ – *Gohiriwyd*
- ~~Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol: Nodi Cofio a pharhau â'n cefnogaeth i gymuned y Lluoedd Arfog (45 munud)~~ – *Tynnwyd yn ôl*
- ~~Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cam-drin Domestig (15 munud)~~ – *Gohiriwyd*
- Dadl: Cyfnod 3 ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (~~180~~ 360 munud)

Dywedodd y Trefnydd wrth y Rheolwyr Busnes hefyd y bydd yn cynnig bod y ddadl ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil y Farchnad Fewnol yn cael ei chynnal ar 24 Tachwedd 2020.

### 3.3 Amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ddileu dadl grŵp Plaid Brexit a drefnwyd ar gyfer dydd Mercher 4 Tachwedd ac i drefnu'r eitemau busnes canlynol:

**Dydd Mercher 18 Tachwedd 2020 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Effaith yr achosion o COVID-19 ar dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau. (30 munud)
- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes, gan fod wythnos gyntaf busnes y Cyfarfod Llawn ar ôl hanner tymor yn ystod ail wythnos cyfnod atal byr y coronafeirws (3 a 4 Tachwedd), y byddai'r trafodion yn cael eu cynnal yn rhithwir (h.y. gyda'r holl Aelodau'n cymryd rhan ar Zoom). Byddai busnes yn cael ei gyfyngu i faterion sy'n dyngedfennol o ran amser lle y bo'n bosibl, gyda phleidleisiau lle bo angen. Byddai'r llywodraeth yn adolygu'r busnes a drefnwyd ar gyfer 3 Tachwedd, gyda newidiadau ar ôl i'r Datganiad a Chyhoeddiad Busnes gael ei gyhoeddi.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020

*Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020*

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad ddydd Llun 2 Tachwedd i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad ddydd Llun 2 Tachwedd i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

*Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid*

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfarfod estynedig ar gyfer y Pwyllgor Cyllid yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 11 Ionawr 2021. Caiff hyn ei ymgorffori yn amserlen y pwyllgorau ar gyfer tymor y gwanwyn y bydd y Pwyllgor Busnes yn ei ystyried ar ôl hanner tymor.

## 6 Y Rheolau Sefydlog

### 6.1 Newidiadau i'r Rheolau Sefydlog - Atal trafodion cyn pleidleisiau electronig o bell

*Newidiadau i Reolau Sefydlog: Atal trafodion cyn pleidleisiau electronig o bell*

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr adroddiad a chyflwyno cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i'w drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 4 Tachwedd 2020.

## 7 Busnes y Senedd

### 7.1 Dethol gwelliannau

*Unrhyw Ddethol Gwelliannau eraill*

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y canllawiau diwygiedig, yn amodol ar y newidiadau y cytunwyd arnynt i'r drafft mewn perthynas â rheoli amser a chymorth.

## Unrhyw Fater Arall

### Cyfarfod y Pwyllgor Iechyd yr wythnos hon

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y gallai'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon gyfarfod fore Gwener yr wythnos hon pe bai'n dymuno gwneud hynny, er mwyn trafod mesurau newydd coronafeirws gyda'r Gweinidog Iechyd, y Prif Swyddog Meddygol a'r Prif Gynghorydd Gwyddonol.